| |
|---|
| **Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**<br><br>**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDO:**<br>**FFILMIAU**<br>**CHWARAEON DAN DO**<br>**CERDDORIAETH FYW**<br>**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**<br>**PERFFORMIADAU DAWNS**<br>**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU DAWNS**<br><br>**CYFLENWI ALCOHOL**<br><br>**GWEITHGAREDDAU UCHOD:**<br>**SUL – SAD: 1100 – 0100 yn ddyddiol**<br><br>**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**<br>**SUL – SAD: 2300 – 0100 yn ddyddiol**<br><br>**GALL CYFLENWI ALCOHOL 24awr Y DYDD I BRESWYLWYR A'I GWESTEION**<br><br>**AMSERAU ANSAFONOL**<br>**NOSWYL CALAN – Tan 0230**<br><br>**Am ddigwyddiadau rhyngwladol yn fyw ar y teledu sydd tu allan i 'BST' a 'GMT' megis Paffio, Rygbi, Pêl Droed, Criced, Golff a digwyddiadau tebyg – Agor 30 munud cyn y digwyddiad i werthu alcohol tan 30 munud wedi'r digwyddiad orffen.** |
| **Oriau agor y safle**<br><br>**SUL SAD: 0730 – 0130 yn ddyddiol**<br><br>**GALL CYFLENWI ALCOHOL 24awr Y DYDD I BRESWYLWYR A'I GWESTEION**<br><br>**AMSERAU ANSAFONOL**<br>**NOSWYL CALAN – Tan 0300**<br><br>**Am ddigwyddiadau rhyngwladol yn fyw ar y teledu sydd tu allan i 'BST' a 'GMT' megis Paffio, Rygbi, Pêl Droed, Criced, Golff a digwyddiadau tebyg – Agor 30 munud cyn y digwyddiad i werthu alcohol tan 30 munud wedi'r digwyddiad orffen.** |
| **Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**<br><br>**AR AC ODDI AR Y SAFLE** |

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**Cyffredinol**

Mae hwn yn gais am drwydded safle newydd; mae'r safle'n cael ei redeg fel gwesty/bwyty ar hyn o bryd. Cyflwynir y cais er mwyn inni allu cynnig gwasanaeth ehangach i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i gael gwared â'r amodau ymhlygedig presennol.

**b) Atal troseddau ac anhrefn**

Cynhelir asesiad risg o'r digwyddiadau, a byddwn yn defnyddio'n disgresiwn i benderfynu a oes angen goruchwyliwr drysau cofrestredig.

**c) Diogelwch Cyhoeddus**

Byddwn yn casglu gwydrau'n rheolaidd i osgoi toriadau ac anafiadau.
Y nifer uchaf o bobl a ganiateir ar y safle ar yr un pryd fydd 100, sef y nifer y mae gennym yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar ei gyfer.
Bydd y goleuadau argyfwng a'r offer tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol.
Mae'r maes parcio a ffrynt y safle wedi'u goleuo'n dda.

**d) Atal Niwsans Cyhoeddus**

Os bydd cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n cael ei chwarae, bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig yn mynd tu allan i wneud yn siŵr nad yw'r gerddoriaeth yn rhy uchel. Os ydyw, bydd yn gofyn am droi'r sŵn i lawr i lefel addas.

Dim ond un cymydog sydd gennym sy'n cael gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Yn ôl y cymydog hwnnw, ychydig iawn o sŵn mae'n ei glywed o'r safle felly dylem gael dim, neu fawr ddim cwynion am lefel y sŵn.

**e) Atal plant rhag niwed**

Byddwn yn gofyn i unrhyw berson y tybiwn sydd dan 21 oed am ddogfen adnabod gyda llun, megis trwydded yrru. Os na allant ddangos unrhyw brawf oedran ni fyddwn yn gwerthu alcohol iddynt.
Anogir prydau bwyd teuluol ac mae bwydlen i blant ar gael.

